Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Tanycastell

Harlech
Gwynedd
Gwynedd
LL46 2SW

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Tanycastell

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Tanycastell |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 83 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 66 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 8 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 0 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector Cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%) | 6.5% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector Cynradd yw 22.2%) | 19% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 13.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0 |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | 01/09/2009 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 01/02/2013 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Tanycastell yn ysgol hapus a chartrefol. Mae'r holl staff yn cydweithio'n effeithiol i greu amgylchedd croesawgar a chynhwysol sy'n meithrin ethos dysgu cefnogol a gweithgar lle mae staff a disgyblion yn gofalu'n naturiol am ei gilydd. Mae'r disgyblion yn hapus i'w mynychu, yn ymddwyn yn dda, yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn gwneud cynnydd cadarn. Er yr heriau amlwg mae'r ysgol wedi eu hwynebu o ganlyniad i gyfnod y pandemig, mae'r ymdeimlad o gymuned glòs ymhlith rhieni, staff a disgyblion wedi golygu ei bod wedi wynebu'r her gyda gwydnwch amlwg.

Mae naws Gymreig gryf yn bodoli yn yr ysgol gyda phwyslais amlwg ar ddarparu ystod o brofiadau gwerthfawr sy'n adlewyrchu natur a chyd-destun yr ysgol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos balchder yn eu hysgol ynghyd â gwerthfawrogiad amlwg o ddiwylliant a hanes yr ardal leol. Yn dilyn y cyfnodau clo, mae athrawon wedi adnabod dirywiad ym medrau llythrennedd Cymraeg disgyblion ac wedi rhoi blaenoriaeth amlwg i sicrhau eu bod yn prysur adfer eu medrau llafar ers dychwelyd i'r ysgol.

Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu cyfoethog ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion. Mae hyn yn eu galluogi i ddatblygu'r medrau sydd angen arnynt i fanteisio ar gwricwlwm cyfan. Mae disgyblion yn mwynhau'r cyfleoedd a gânt i ddylanwadu ar beth maent yn dymuno dysgu o fewn thema'r tymor sy'n sicrhau eu bod yn awyddus i ddysgu, ac yn dangos diddordeb a balchder yn eu gwaith. Fodd bynnag, dechrau datblygu y mae gallu disgyblion i werthuso ac i wella eu gwaith eu hunain yn annibynnol.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol sy'n rhoi cyfeiriad clir i'r ysgol. Caiff gefnogaeth gref gan staff ymroddedig sy'n cydweithio'n dda fel tîm. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth dda o waith yr ysgol ac maent yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol.

## Argymhellion

A1 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau darllen ac ysgrifennu ymestynnol Cymraeg disgyblion ar draws y cwricwlwm

A2 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion werthuso a gwella eu gwaith eu hunain yn annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu iI fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae hyn y cynnwys y rhai sydd ag anghenion addysgol ychwanegol a'r rhai o gartrefi difeintiedig, Mae'r pandemig wedi arafu cynnydd lleiafrif o ddisgyblion, yn enwedig o ran eu medrau llafar, darllen, a'u medrau ysgrifennu ymestynnol Cymraeg ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf yn datblygu'r medrau cyfathrebu sydd eu hangen arnynt i ymgysylltu yn yr ystafell ddosbarth gydag athrawon a disgyblion eraill yn llwyddiannus. Mae bron bob disgybl yn gwrando'n dda yn ystod cyflwyniadau'r athrawon a chyfraniad eu cyfoedion. Mae'r disgyblion hynny lle na siaredir y Gymraeg gartref yn prysur adennill hyder gyda'r iaith. Er yr heriau mae disgyblion wedi eu hwynebu yn ystod y pandemig, ers dychwelyd i'r ysgol, mae medrau iaith lafar Cymraeg llawer ohonynt yn datblygu'n dda.

Yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn, mae llawer yn siarad yn ddealladwy am bethau o'u profiad ac yn cyfrannu'n ddilys at weithgareddau dosbarth. Mae disgyblion y dosbarth derbyn yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol wrth chwarae rôl yn 'Y Filfeddygfa'. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn trafod eu gwaith yn hyderus ac yn dangos diddordeb a brwdfrydedd wrth adalw stori'r 'Fuwch wnaeth Ddodwy Ŵy'. Maent yn chwarae rôl yn fyrlymus gan gyfleu ystyr ymadroddion fel 'wrth ei bodd', 'sobor o falch', 'mewn sioc' a 'thorri ei chalon' yn frwdfrydig. Mae rhan fwyaf y disgyblion hŷn yn adeiladu'n briodol ar y sylfaen gadarn hon. Maent yn siarad Cymraeg yn gynyddol hyderus ac yn defnyddio geirfa bwrpasol, er enghraifft wrth drafod beth sydd ei angen ar blanhigyn i dyfu. Ar frig yr ysgol, mae llawer yn datblygu'n ddysgwyr hyderus dwyieithog a mynegi eu hunain yn aeddfed yn y Gymraeg a'r Saesneg, er enghraifft wrth greu dadl o blaid neu yn erbyn agor sŵ newydd fel rhan o'u gwaith ar eu llyfr dosbarth, Sŵ Sarah Mai. Er hyn, mae lleiafrif yn tueddu i droi at y Saesneg wrth drafod eu gwaith.

Mae rhan fwyaf disgyblion y dosbarth meithrin a derbyn yn datblygu dealltwriaeth dda o'r berthynas rhwng llythrennau, seiniau a geiriau. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn darllen â dealltwriaeth gynyddol ac yn defnyddio eu medrau ffonig yn briodol i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn darllen yn gywir gyda goslef glir yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae disgyblion uwch eu gallu yn darllen gyda rhuglder a hyder yn y ddwy iaith. Ar y cyfan, mae rhan fwyaf y disgyblion hŷn yn dangos dealltwriaeth wybodus o'r cyd-destun. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau darllen i gywain gwybodaeth o lyfrau a thestunau amrywiol, er enghraifft wrth ddarllen rhaglen newyddion ar y we. Er hyn, yn gyffredinol, nid yw uwch fedrau darllen disgyblion wedi datblygu'n ddigonol er mwyn gallu dehongli a deall ystyr yn effeithiol wrth ganfod gwybodaeth.

Wrth i ddisgyblion symud ymlaen drwy'r ysgol, mae medrau ysgrifennu llawer yn datblygu'n dda. Yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn mae'r rhan fwyaf yn dangos brwdfrydedd tuag at ysgrifennu wrth arbrofi â gwneud marciau. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn ffurfio llythrennau'n gywir ac yn defnyddio llawysgrifen ddealladwy wrth ysgrifennu stori ddychmygus am ddinosoriaid, er enghraifft. Mae

rhan fwyaf disgyblion Blwyddyn 3 – 6 yn defnyddio eu medrau ysgrifennu Cymraeg a Saesneg mewn amrywiaeth o ffurfiau. Mae llawer yn llwyddo i gyfleu syniadau a theimladau gan ddefnyddio geirfa berthnasol addas a chan atalnodi yn briodol. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda phartner trafod wrth feddwl am enwau, ansoddeiriau, adferfau a chymhariaethau i gyfoethogi eu gwaith, er enghraifft wrth ysgrifennu erthygl papur newydd ar hanes Skara Brae. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n briodol at ddibenion gwahanol ac ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol. Mae'r disgyblion mwy galluog yn defnyddio geirfa gyfoethog yn y ddwy iaith ac yn trefnu eu gwaith yn synhwyrol gan ddefnyddio paragraffau'n gywir, er enghraifft wrth ysgrifennu dyddiadur Seithennyn yn seiliedig ar stori Cantre'r Gwaelod. Er hyn, prin yw'r enghreifftiau o ddisgyblion yn cymwyso eu medrau ysgrifennu ymestynnol Cymraeg ar draws y cwricwlwm ac yn ailddrafftio a gwella eu gwaith yn annibynnol

Mae rhan fwyaf disgyblion y dosbarth derbyn, Blwyddyn 1 a 2 yn datblygu dealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif ac yn eu defnyddion hyderus wrth ymgymryd â'u gweithgareddau o fewn y dosbarth, er enghraifft wrth ddarganfod sawl ffordd y gellir gosod 6 o wyau lliw mewn bocs. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn adnabod gwerth rhif mewn rhifau dau a thri digid ac yn lluosi rhifau hyd at 10 gan 2, 5 a 10. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o arian ac yn medru datrys problemau a thrin data yn llwyddiannus. Mae rhan fwyaf y disgyblion hŷn yn adeiladu'n effeithiol ar ddysgu blaenorol. Maent yn trafod eu gwaith rhif yn gynyddol hyderus gan ddefnyddio termau mathemateg berthnasol yn unol â'u hoed a'u gallu. Ar frig yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dwyn i gof yn dda ddysgu blaenorol, wrth gyfrifo perimedr ac arwynebedd ac yn ei ddefnyddio, er enghraifft i gynllunio estyniad i'r sŵ neu wrth gymharu tymheredd yng Ngwlad yr Iâ â Chymru. Fodd bynnag, lleiafrif sy'n penderfynu drostynt eu hunain pa strategaethau i'w defnyddio ac ychydig sy'n gwirio eu hatebion eu hunain yn annibynnol.

Mae medrau digidol rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae rhan fwyaf disgyblion y dosbarth derbyn yn rhoi cyfres o gyfarwyddiadau cywir i degan digidol i ddod o hyd i Inc Tafod Pinc, y gath fach goll. Erbyn Blwyddyn 2 mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio llechen ddigidol yn hyderus i gofnodi eu gwaith ac i ddatblygu eu medrau llafar. Mae rhan fwyaf y disgyblion hŷn yn mewngofnodi'n hyderus i'w cyfrif digidol personnol ac yn defnyddio amrywiaeth o raglenni addas i gywain a chyflwyno gwybodaeth, er enghraifft wrth ddathlu pen-blwydd Parc Cenedlaethol Eryri yn 70 oed. Maent yn gwneud defnydd creadigol o ystod o raglenni digidol, er enghraifft wrth greu a chyflwyno fideo i arddangos eu gwaith creadigol am ystlum dychmygol o'r enw Serenola. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu eu medrau llafar Cymraeg. Ar frig yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'n gelfydd rhaglen ddigidol ynghyd ag offer gwyddonol addas wrth ymchwilio i wahanol rannau planhigyn.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n gwbl ddiogel o fewn yr ethos gofalgar, cynhwysol a chynhaliol sy'n bodoli yno. Maent yn gwybod at bwy i droi am gyngor petai rywbeth yn eu poeni ac yn hyderus bod staff yn ymateb i unrhyw bryder sydd ganddynt. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd ac mae ymweliadau gan yr heddlu cymunedol yn atgyfnerthu hyn.

Yn dilyn y cyfnodau clo o ganlyniad i'r pandemig, mae rhan fwyaf y disgyblion wedi ymgysylltu â gweithgareddau a threfniadau'r ysgol yn gyson dda gan ddangos agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu. Maent yn ymddwyn yn dda mewn gwersi, wrth symud o amgylch yr ysgol ac yn ystod amser hamdden. Maent yn garedig, yn gwrtais a pharchus tuag at oedolion, a thuag at ddisgyblion eraill. Mae'r rhan fwyaf yn ofalgar o'i gilydd ac yn dangos parch tuag at eraill mewn gwersi, yn y neuadd ginio ac ar fuarth yr ysgol. Maent yn teimlo bod ymddygiad heriol yn cael ei ddatrys yn brydlon ac yn addas.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n ddinasyddion moesegol, gwybodus. Maent yn parchu eu hawliau eu hunain, a hawliau pobl eraill. Mae ganddynt synnwyr cryf o degwch a chydraddoldeb i'w ffrindiau ac oedolion ac o'u cyfrifoldeb i barchu eu hamgylchedd. Mae'r gwasanaethau ysgol yn cyfrannu'n gadarn at ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o wahanol grefyddau, a'u datblygiad moesol ac ysbrydol. Mae'r disgyblion yn falch o'u cyfraniad at weithgareddau codi arian, er enghraifft drwy godi arian tuag at helpu pobol o Wcráin. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth y rhan fwyaf ohonynt o anghenion pobl eraill yn eu cymuned a'r byd ehangach, ac yn cyfrannu'n dda at eu datblygiad moesol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn arddangos agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu. Mae llawer yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig, sy'n cydweithio'n gytûn ac yn cadw'n ddygn ar dasg dros gyfnodau estynedig. Maent yn dangos lefelau da o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos o ddysgu effeithiol sy'n bodoli o fewn yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau llawer o'r disgyblion. Mae bron bob un disgybl yn y dosbarthiadau iau yn ymgysylltu'n barod â'r ddarpariaeth o fewn y dosbarth yn yr awyr agored ac yn gwneud dewisiadau yn annibynnol, er enghraifft wrth chwarae rôl neu adeiladu gyda blociau. Mae'r rhan fwyaf yn dangos dealltwriaeth gadarn o drefniadaeth dosbarth ac yn symud o gwmpas yr ardaloedd amrywiol yn hyderus ac annibynnol. Maent bob amser yn barod i ddysgu ac yn canolbwyntio'n dda. Maent yn dechrau dylanwadu a rhannu eu syniadau wrth ymateb i'r amrywiaeth o weithgareddau diddorol yn yr ardaloedd dysgu.

Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn siarad yn frwdfrydig am eu dysgu ac yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd a gânt i ddylanwadu ar beth maent yn dymuno ei ddysgu o fewn thema'r tymor. Enghraifft dda o hyn yw'r modd y mae'r disgyblion ar frig yr ysgol yn defnyddio rhaglen ddigidol i grynhoi a chyflwyno eu syniadau fel sail i'w thema ar anifeiliaid. Mae'r disgyblion hyn wedi mynegi eu bod yn awyddus i'r tasgau yn y Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg fod yn fwy ymarferol, yn dymuno gwahodd mwy o ymwelwyr i siarad am y maes a pharhau i ddefnyddio'r ardal tu allan wrth ddysgu am wyddoniaeth. Mae hyn yn arwain at berchnogaeth dda o'u dysgu a chynyddu eu hymrwymiad i'w gwaith. Mae llawer o'r disgyblion yn ymateb yn dda i adborth llafar sy'n cael ei roi gan eu hathrawon. Mae'r mwyafrif yn defnyddio hyn i helpu symud eu dysgu ymlaen yn briodol. Fodd bynnag, dechrau datblygu y mae eu gallu i ystyried eu dysgu eu hunain a dysgu eu cyfoedion, a nodi lle gallai pethau wella.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac maent yn deall effaith ymarfer corff ar eu hiechyd. Maent yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn ystod o weithgareddau corfforol tu mewn a thua allan i'r ysgol sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u ffitrwydd.

Oherwydd pandemig y coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd ar gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blynyddoedd academaidd 2020-2021 a 2021-2022. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae staff yn datblygu perthynas waith agos a chlòs gyda'r disgyblion, sy'n meithrin amgylchedd cadarnhaol a chefnogol ar gyfer dysgu. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn annog eu cyfranogiad a chanmol eu hymdrechion tra byddant yn gweithio a rhyngweithio â'u cymheiriaid yn gyson. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu amrediad o brofiadau dysgu ymarferol a chyfoethog i'w disgyblion. Maent yn cyflwyno themau trawsgwricwlaidd a rhaglenni gwaith ymarferol a diddorol sy'n ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion ac yn cryfhau eu hymrwymiad i'w gwaith yn effeithiol. Enghraifft o hyn yw cyfle i ddisgyblion iau fagu cywion yn y dosbarth ac i ddefnyddio eu dychymyg wrth greu trap llwynog yn yr ardal tu allan. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu effeithiol, sy'n cymell disgyblion i ddysgu. Maent yn meddu ar wybodaeth bynciol dda ac yn defnyddio'r wybodaeth honno'n gelfydd wrth gynllunio profiadau dysgu diddorol i'w disgyblion, sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf ohonynt yn llwyddiannus. Mae cydweithio pwrpasol rhwng athrawon a chymorthyddion yn darparu cefnogaeth fuddiol i alluogi disgyblion i gwblhau eu tasgau ac elwa ohonynt.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi gwreiddio'n llwyddiannus. Mae pwyslais clir ar feithrin annibyniaeth a datblygu medrau disgyblion trwy ddarparu profiadau ymarferol ac ysgogol. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn frwdfrydig wrth ymgymryd â'u gweithgareddau gan gydweithio a chyd-chwarae'n  hapus â'i gilydd. Mae'r staff yn gwneud defnydd priodol o'r ardal ddysgu tu allan i gefnogi'r dysgu. Mae athrawon y dosbarthiadau Blwyddyn 3 i 6 yn cynllunio'n drwyadl i sicrhau lefel briodol o her ar gyfer disgyblion o wahanol alluoedd. Yn gyffredinol, mae cydbwysedd da yn y dosbarthiadau hyn rhwng profiadau sy'n cael eu harwain gan oedolion a chyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol. Fodd bynnag, mae tueddiad ar adegau i athrawon arwain gormod ar y gweithgareddau, ac mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

Mae trefniadau addas yn eu lle ar gyfer diwygio'r cwricwlwm yn seiliedig ar y pedwar diben i fodloni egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Mae athrawon yn cynllunio'n feddylgar i sicrhau profiadau dysgu sy'n adlewyrch cyd-destun ac ethos yr ysgol, er engraifft wrth astudio hanes y castell lleol neu ddysgu am chwedlau fel hanes trist Branwen. Mae hyn yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o'u hetifeddiaeth yn llwyddiannus ac y cyfrannu at ymdeimlad o falchder ymlith disgyblion tuag at eu hardal a'u diwylliant. Maent yn cynnwys disgyblion wrth lunio'r themau tymhorol ac yn talu sylw trylwyr i'w cwestiynau a'u syniadau wrth ddechrau uned o waith. Gwahoddir ymwelwyr i'r ysgol yn rheolaidd i rannu eu profiadau. Er enghraifft, daeth milfeddyg lleol a gofalwyr tylluanod i'r ysgol i hybu diddordeb disgyblion yn eu thema ar anifeiliaid. Mae hyn yn arwain at berchnogaeth dda o'u dysgu a chynyddu ymrwymiad disgyblion i'w gwaith.

Mae athrawon yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion ar draws y cwricwlwm. Yn dilyn y cyfnodau clo, mae athrawon wedi adnabod dirywiad ym medrau llythrennedd Cymraeg disgyblion. O ganlyniad, maent wedi blaenoriaethu datblygiad medrau llafar disgyblion ac wedi rhoi ar waith nifer o strategaethau priodol sy'n prysur helpu disgyblion i adfer eu medrau llafar yn gyson ers dychwelyd i'r ysgol. Mae'r staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at gryfhau eu medrau llafar. Enghraifft dda o hyn yw'r gemau drilio iaith dyddiol ar y buarth. Mae athrawon yn defnyddio rhaglen ddigidol i recordio'u hunain yn darllen storïau Cymraeg ar gyfer y rhieni i'w rhannu gyda'u plant er mwyn sicrhau bod y disgyblon ieuengaf yn clywed yr iaith gartref. Trefnwyd i awdur Cymraeg sgwrsio gyda'r disgyblion ar lein i hybu eu chwilfrydedd am lyfrau Cymraeg. Drwy fabwysiadu'r prosiect " Llais ni", mae'r athrawon yn darparu amrywiaeth o dasgau digidol diddorol sy'n fodd effeithiol o godi brwdfrydedd disgyblion at yr iaith. Mae athrawon wedi adnabod pwysigrwydd sicrhau cynulleidfa i'r disgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau llafar. Enghraifft dda o hyn yw gwaith disgyblion hŷn yn defnyddio rhaglen amlgyfrwng i ysgrifennu a chyflwyno stori Cantre'r Gwaelod i ddisgyblion iau. Mae hyn yn hyrwyddo medrau trawsieithu disgyblion hŷn yn effeithiol ac yn eu datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau darllen Cymraeg disgyblion a'u medrau ysgrifennu ymestynnol wedi'u datblygu i'r un graddau.

Mae'r athrawon yn cynnig adborth llafar pwrpasol i ddisgyblion ac yn ymyrryd yn feddylgar i'w cynorthwyo ar adegau priodol yn ystod y wers ac i'w hannog i ddyfalbarhau. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfleoedd i ddisgyblion werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill. O ganlyniad dechrau datblygu y mae eu gallu i wella eu gwaith eu hunain yn annibynnol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Nodwedd arbennig o'r ysgol yw'r ethos croesawgar a theuluol. Mae staff yn creu ethos hapus, gofalgar a chynhwysol yn yr ysgol, lle mae pawb yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Mae diwylliant cryf o ddiogelu ar draws yr ysgol. Mae'r holl staff yn ymwybodol o'r trefniadau amddiffyn plant ac yn creu cymuned ddiogel, hapus a gofalgar sy'n llwyddo i feithrin medrau personol a chymdeithasol y disgyblion yn llwyddiannus. Trwy'r "Swigod Sgwrs", mae disgyblion yn cael cyfle i sgwrsio am unrhyw bryder gydag aelod o staff. Mae arweinwyr yn cynnal asesiadau risg manwl o fewn gweithgareddau ysgol a chyn mynd ar deithiau allanol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Ceir systemau effeithiol ar gyfer olrhain a monitro cynnydd disgyblion, ac mae trefniadau ar gyfer nodi ac ymateb i anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn drylwyr. Mae'r athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau priodol i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar a chymryd camau addas i fodloni anghenion y rhai sydd angen cymorth o fewn y dosbarth. Mae ymroddiad staff i ddarparu ar y cyd ag asiantaethau allanol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion wella agweddau o'u lles, yn ogystal â hyfforddiant perthnasol i staff, sy'n cryfhau'r ddarpariaeth. Mae'r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol i'r diwygiadau yn y ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae athrawon yn creu cynlluniau addysg unigol priodol i bob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn adolygu'r

cynlluniau hyn yn rheolaidd gyda rhieni a'u plant ynghyd ag asiantaethau perthnasol, er mwyn cynllunio'n briodol ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Mae cyfnodau cyd-addoli gwerthfawr yn creu ethos sy'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ar werthoedd fel tegwch, cyfeillgarwch a charedigrwydd. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion i drafod emosiwn a theimladau, er enghraifft drwy drafod stori Sŵ Sara Mai a cherddi sy'n disgrifio gwahanol emosiynau. Maent yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o gynaliadwyedd trwy drafod agweddau o'r fasnach deg ac effaith newid hinsawdd ar gynefin yr arth wen.

Er bod cyfleoedd i dderbyn cyfrifoldebau trwy grwpiau llais y plentyn, fel y cyngor ysgol, wedi eu cyfyngu oherwydd y pandemig, mae'r disgyblion yn ymateb yn frwdfrydig i'r cyfleoedd sy'n cael eu darparu iddynt, er enghraifft trwy dderbyn cyfrifoldebau yn y dosbarth a gofalu am ddisgyblion iau amser cinio. Caiff disgyblion gyfleoedd cyson i gyfrannu fel tîm, er enghraifft trwy brosiect Llwybr Llafar sy'n ysgogi disgyblion i gydweithio wrth gasglu gleiniau tuag at wobr ysgol gyfan. Darperir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ehangu eu dealltwriaeth o fyd gwaith ac i godi eu dyheadau trwy gyfrannu tuag at brosiectau mentergarwch.

Mae pwyslais amlwg ar ddatblygu medrau creadigol disgyblion. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion iau weithio'n greadigol gydag amrywiaeth o ddeunyddiau, er enghraifft i greu anifail dychmygol neu i efelychu gwaith artistiaid enwog o Gymru a thu hwnt. Mae athrawon y dosbarthiadau hŷn yn ymestyn medrau creadigol disgyblion yn gelfydd, er enghraifft trwy efelychu patrymau cyntefig o Awstralia a thraddodiad y 'willow pattern plate' a chreu darluniau creadigol o adar yr ardd.

Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau corfforol. Mae athrawon yn cymell y disgyblion iau i symud yn hyderus o gwmpas yr ystafell ddosbarth dan do ac yn yr awyr agored. O ganlyniad, maent yn datblygu cydsymud da, er enghraifft wrth ymateb i gerddoriaeth Gymreig. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae athrawon yn darparu'n effeithiol i ddatblygu'r medrau hyn ymhellach trwy ystod dda o weithgareddau yn seiliedig ar chwarae a chlybiau chwaraeon. Mae'r disgyblion hŷn yn manteisio'n frwdfrydig ar ymweliad â chanolfan awyr agored leol i ddatblygu eu medrau corfforol ymhellach. Mae hyn yn datblygu eu hyder a'u ffitrwydd yn ogystal â'u gallu i gydweithio.

Mae staff yn hybu pwysigrwydd bwyta'n iach ac annog ffitrwydd corfforol drwy amrediad o wersi ymarfer corff a gweithgareddau ffitrwydd yn ogystal â chlybiau chwaraeon ar ôl yr ysgol. Mae hyn yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o sut i wneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw ac o bwysigrwydd cadw'n heini yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hybu presenoldeb da. Mae hyn yn cynnwys monitro dyddiol, a chadw cysylltiadau agos â'r rhieni yn ogystal â swyddog lles yr awdurdod lleol. Mae'r ysgol yn mynd i'r afael ag absenoldeb parhaus yn gyson.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol sy’n sicrhau cyfeiriad clir i’r ysgol ac yn hybu cymuned glòs, gynhwysol a hapus. Mae ganddi weledigaeth gadarn sy’n cael ei chyfathrebu a’i harddel yn effeithiol gan randdeiliaid yr ysgol. Mae’r pennaeth a’r staff yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn cydweithio’n llwyddiannus i ddatblygu tîm effeithiol o athrawon a staff cymorth. Caiff hyn ei adlewyrchu’n llwyddiannus gan agweddau cadarnhaol y rhan fwyaf o’r disgyblion at fywyd a gwaith yr ysgol. Mae bron bob un yn ymddwyn yn dda ac yn arddangos parch ac aeddfedrwydd wrth ryngweithio â chyfoedion, staff ac ymwelwyr.

Mae hybu’r Gymraeg a Chymreictod yn flaenoriaeth ac yn ganolog i weledigaeth a holl waith yr ysgol. Mae’r pennaeth yn gweithio’n llwyddiannus gyda staff, disgyblion, llywodraethwyr, rhieni ac aelodau’r gymuned ehangach i weithredu’r weledigaeth. Mae staff yn cydweithio’n agos gydag ysgolion y dalgylch i wireddu’r uchelgais hon. Enghraifft dda o’r cydweithredu cadarnhaol hwn yw ymlyniad holl ysgolion y clwstwr i’r prosiect ’Llais Ni’ sy’n rhoi ffocws clir ar wella medrau llafar disgyblion yn y Gymraeg.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso cadarn yn ganolog i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae’r broses yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth sy’n cynnwys arsylwi gwersi, craffu ar waith disgyblion a chynnal teithiau dysgu. Mae’r pennaeth yn sicrhau bod gan yr holl staff rôl weithredol yn y broses. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o gryfderau’r ysgol a’r agweddau sydd angen eu gwella. Mae’r pennaeth ac arweinwyr ysgol yn defnyddio canfyddiadau’r broses hunanwerthuso, ynghyd â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, i lunio cyfeiriad strategol clir sy’n canolbwyntio ar wella deilliannau a lles disgyblion. Er i’r pandemig diweddar effeithio ar amserlen a phrosesau hunanwerthuso arferol yr ysgol, mae arweinwyr wedi ailgydio’n fwriadus yn eu rôl o fonitro perfformiad.

Mae arweinwyr yn creu diwylliant ac ethos cadarnhaol sy’n hybu a chefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff. Defnyddir arbenigedd a phrofiadau unigol staff yn effeithiol wrth ddyrannu cyfrifoldebau cwricwlaidd a hyrwyddo dysgu proffesiynol. Darperir rhaglen o hyfforddiant gwerthfawr sy’n cydfynd â blaenoriaethau cyfredol yr ysgol ac mae’r ysgol yn cydweithio’n llwyddiannus iawn gyda phartneriaid eraill i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol fel gwireddu’r Cwricwlwm i Gymru a’r diwygiadau yn y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol. Enghraifft dda o hyn yw’r cydweithio rhagweithiol sy’n digwydd rhwng ysgolion lleol er mwyn gwella’r ddarpariaeth gwyddoniaeth a thechnoleg.

Mae’r ysgol yn sefydlu perthnasoedd cynhyrchiol gyda rhieni. Mae dulliau cyfathrebu effeithiol yn sicrhau bod rhieni’n cael codi unrhyw faterion a allai gael effaith ar ddysgu a lles eu plentyn yn amserol. Yn ystod y cyfnodau clo, darparwyd cefnogaeth werthfawr i ddisgyblion drwy ymuno mewn gwersi byw, i ddatblygu gwell cyswllt rhwng yr ysgol a’r dysgwyr. O ganlyniad, roedd gan y disgyblion a’u rhieni ddealltwriaeth gadarnach o ofynion y tasgau gan arwain at lefel uwch o ymgysylltu a gwaith o ansawdd gwell.

Mae aelodau’r corff llywodraethol yn hynod gefnogol i’r ysgol, ac yn ei hadnabod yn dda. Er enghraifft, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o natur yr addysgu a’r gefnogaeth a ddarparodd yr ysgol i’r disgyblion a’u teuluoedd yn ystod y cyfnodau

clo, gan gynnwys effaith y pandemig ar gyflawniad a chynnydd disgyblion. Mae'r corff yn deall ac yn cyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol. Mae gan yr aelodau ddealltwriaeth gadarn o flaenoriaethau'r ysgol a'r sail resymegol y tu ôl iddynt. Maent yn deall eu rôl o ran cynorthwyo'r ysgol i roi ei strategaeth wella ar waith. Mae llywodraethwyr yn cyfrannu'n briodol at weithgarwch monitro ac mae hyn yn eu helpu i sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfredol am gynnydd yr ysgol wrth roi gwaith gwella ar waith. Maent yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli cyllid yn ofalus ac yn adolygu gwariant yn briodol. Maent yn sicrhau bod penderfyniadau gwariant a chynllunio ariannol yn cysylltu'n fwriadus â blaenoriaethau gwella strategol. Defnyddir amrywiaeth o grantiau yn bwrpasol i gefnogi'r ddarpariaeth ac i hyrwyddo lles disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio ei grant datblygu disgyblion yn effeithiol i sicrhau lefelau uchel o gymorth i ddisgyblion difreintiedig ac i gynnig profiadau iddynt efallai na fyddent yn eu cael fel arall. Mae'r ysgol yn elwa o gyfraniadau gwerthfawr gan y Gymdeithas Rhieni sydd wedi buddsoddi swm sylweddol er mwyn prynu cyfarpar digidol i gefnogi'r ddarpariaeth cymhwysedd digidol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/07/2022